Cronfa Arloesi Treftadaeth

See all updates

Cymorth i brosiectau archwilio, profi a datblygu ffyrdd newydd o weithio ar draws y gweithlu treftadaeth.

Pwysig

Cronfa Arloesi Treftadaeth yn derbyn ceisiadau mwyach.

- Porwch drwy'r cyllid sydd ar gael

Diweddariadau i'r arweiniad

Crëwyd y dudalen ar 5 Gorffennaf 2022.

Tudalen wedi'i diweddaru ddiwethaf ar 2 Awst 2022. Gweler yr holl ddiweddariadau ar waelod y dudalen hon.

Trosolwg

Mae'r Gronfa Arloesi Treftadaeth yn rhaglen ariannu beilot ar gyfer **arbrofwyr, cydweithredwyr a dysgwyr** o bob rhan o dreftadaeth, ledled y DU. Rydym yn chwilio am bobl sydd am chwarae rhan flaenllaw mewn atebion arloesol ar gyfer gwneud y gweithlu treftadaeth yn addas ar gyfer y dyfodol.

> Nid arloesi yw'r ateb i bopeth i fod – dylai fod yn ymwneud â'ch sefydlu i feddwl am yr hyn a allai fod ymhen 20 mlynedd.
>
> *Gweithiwr treftadaeth naturiol proffesiynol*

Fe'i cynlluniwyd i gefnogi sefydliadau i **archwilio, profi** a **thyfu**'r ffyrdd newydd o weithio sydd eu hangen i gefnogi dyfodol ein treftadaeth amrywiol.

Gellir defnyddio'r cyllid i gefnogi sefydliadau i ddod o hyd i atebion ymarferol a fydd yn eu helpu – a hefyd yn cael eu rhannu ar draws y sector.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod:

- ymrwymedig i'r broses arloesi
- barod i ddysgu ac arbrofi

- barod i rannu eu methiannau yn ogystal â'u llwyddiannau

Beth rydym yn ei olygu wrth "ffyrdd newydd o weithio"?

Rydym yn golygu materion sy'n ymwneud â gweithlu'r dyfodol (boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol). Mae'r materion hyn yn effeithio ar p'un a oes gan sefydliadau nifer y staff a'r sgiliau i fodloni gofynion ac uchelgeisiau ar gyfer treftadaeth amrywiol y DU yn y dyfodol.

Rydym yn ymwybodol y gallai'r rhain fod yn gysylltiedig â materion cymhleth ac ehangach sy'n ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant, perthnasedd, cynulleidfaoedd a dehongli.

Sut bydd y Gronfa Arloesi Treftadaeth yn gweithio?

Mae'r Gronfa Arloesi Treftadaeth yn **rhaglen beilot**. Y bwriad yw meithrin gallu arloesi o fewn, ar draws a rhwng gwahanol rannau o dreftadaeth o amgylch heriau cyffredin – **y gweithlu, y sgiliau a'r ffyrdd o weithio** sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

Bydd y Gronfa Arloesi Treftadaeth yn cynnwys tri cham.

Cam 1: Archwilio

Mae Archwilio wedi'i anelu ar gyfer sefydliadau yn y cam syniadau cynnar. Bydd y cam hwn yn canolbwyntio ar ddiffinio problem clir a'ch helpu i ddatblygu atebion posibl ar gyfer profi'n ymarferol.

Rydym yn argymell edrych ar offeryn Helpu Arloesedd Nesta, a all helpu i nodi cyfleoedd a heriau a chreu syniadau. Bydd y rhaglen yn darparu mynediad i:

- grantiau o hyd at £25,000 i dalu am eich amser a'ch gweithgareddau yn ystod y cam hwn (hyd at chwe mis)
- arbenigedd i'ch helpu i ddatblygu eich syniadau a'ch sgiliau trwy becyn cymorth strwythuredig?
- dysgu a chyfnewid syniadau mewn grwpiau

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, efallai y bydd grantiau pellach gan y Gronfa Arloesi Treftadaeth ar gael i gefnogi'r camau canlynol yn y daith arloesi.

Cam 2: Profi

Bydd y cam hwn yn cynnig cymorth i roi prototeipiau a syniadau addawol ar waith i gasglu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio.

Cam 3: Tyfu

Bydd y cam hwn yn eich cefnogi i weithredu canfyddiadau'n ehangach, gan ymgorffori, rhannu a chyflwyno arfer da ar draws y sector treftadaeth.

Dim ond ar gyfer y cam Archwilio yn unig rydym yn derbyn ceisiadau ar hyn o bryd.

Pam yr ydym yn lansio'r Gronfa Arloesi Treftadaeth?

> Mae arloesi'n digwydd yn bendant, ond nid yw wedi'i ddosbarthu'n gyfartal. Mae arnom angen hyder ar y cyd.
>
> *Gweithiwr amgueddfa proffesiynol*

Yn 2021, gwnaethom gynnal ymchwil darganfod ar draws y sector. Clywsom fod llawer o sefydliadau'n wynebu heriau tebyg o ran y gweithlu, wedi'u gwaethygu gan bandemig y coronafeirws (COVID-19).

Mae'r rhain yn cynnwys materion sy'n ymwneud â: sut rydym yn gweithio, pwy sydd wedi'i gynnwys yn y gweithlu (ac sydd ar goll ohono), pa sgiliau sydd eu hangen, a lle mae bylchau.

Clywsom hefyd, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn yn y **tymor hir**, fod angen amser, lle, adnoddau a'r cymorth cywir ar sefydliadau.

> Os ydych chi'n cynnal sgyrsiau yn y ffordd gywir, cefnogwch ddatblygiadau arloesol bach a rhowch hyder i bobl wneud mwy... Mae angen lle ar bobl i feddwl mewn ffordd gefnogol.
>
> *Gweithiwr treftadaeth proffesiynol*

Bydd y Gronfa Arloesi Treftadaeth yn helpu i gynhyrchu a meithrin syniadau sy'n ceisio sicrhau bod gan y gweithlu treftadaeth y gallu a'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y dyfodol.

Yn ein harolwg Calon Treftadaeth y DU yn 2022, roedd 54% o'r ymatebwyr am gael mwy o gefnogaeth i arloesi a phrofi dulliau newydd. Mae'r Gronfa Arloesi Treftadaeth yn rhan o'n hymateb ehangach i'r angen hwn.

Expand All accordions

Pwy all wneud cais?

Rydym yn derbyn ceisiadau gan sefydliadau treftadaeth o unrhyw faint neu fath, unrhyw le yn y DU.

Gallai'r rhain gynnwys:?

- sefydliadau dielw
- awdurdodau lleol
- sefydliadau sector cyhoeddus neu berchnogion treftadaeth preifat (gyda gweithlu)

Ni allant gynnwys:

- sefydliadau masnachol
- sefydliadau er elw

Expand All accordions

Beth allwn ni ei ariannu?

Yn y cam Archwilio, rydym wedi comisiynu rhaglen cymorth arloesi arbenigol i eistedd ochr yn ochr â grant o hyd at **£25,000**.

Gellir defnyddio'r cyllid i dalu am gostau amser staff i gyflawni prosiect Cronfa Arloesi Treftadaeth dros gyfnod o chwe mis.

Gallai'r costau hyn gynnwys:

- cyflog aelod allweddol o staff neu gostau ôl-lenwi os yw'n berthnasol?
- costau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â mynychu digwyddiadau wyneb yn wyneb neu gyflwyno gweithgareddau fel rhan o'r rhaglen

Gellir defnyddio hyd at **10%** o'r cyllid i dalu costau'r deunyddiau a'r offer hanfodol sydd eu hangen wrth ymchwilio i'ch prosiect. Gallai hyn gynnwys prynu dyfeisiau hanfodol ac offer TG.

Expand All accordions

Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano

Yn eich cais Archwilio cam mae'n rhaid i chi nodi'n glir:

- sut y byddwch yn archwilio ac yn diffinio eich syniad a'ch datganiad problem??
- sut y bydd eich gwaith yn canolbwyntio ar y datblygiad strategol, llywodraethu a chynllunio ariannol pellach sy'n gysylltiedig â'ch syniad a sut y byddwch yn ymgysylltu â grwpiau perthnasol ac yn eu cynnwys??
- sut y bydd arian y Loteri Genedlaethol, cyngor arbenigol a bod yn gysylltiedig â gr?p o gyfoedion sydd â nod cyffredin yn cryfhau eich sefydliad dros y tymor hwy

Cwestiynau i'w hystyried

- Beth yw'r her i'r gweithlu yr ydych am ganolbwyntio arni?
- Beth yw gwahanol elfennau'r her, a pham nad aethpwyd i'r afael â hwy o'r blaen?
- Beth yw canlyniadau tymor byr, canolig, tymor hwy peidio â datrys yr her hon?
- Pwy sydd angen cymryd rhan (yn fewnol a/neu'n allanol)? Sut gallech chi gael gwybod mwy am eu safbwyntiau?
- Sut bydd yr archwiliad hwn yn ymwneud â gwaith parhaus yn eich sefydliad?
- Pa gymorth sydd gennych, ac a fydd ei angen arnoch, er mwyn i'r gwaith darganfod cynnar fod yn effeithiol? Gallai hyn fod gan eich sefydliad, y Gronfa Treftadaeth, a/neu sefydliadau neu bobl eraill.

Pynciau y gallech eu harchwilio gyda'n cyllid:

> Ni all arloesedd digwydd pan fyddwch chi'n ei ddisgrifio ymlaen llaw... Yn hytrach, dylem osod meini prawf sy'n canfod gallu, archwaeth a chapasiti – yn hytrach na bod yn rhagnodol am yr arbrawf.
>
> *Gweithiwr proffesiynol cymorth sector*

Ystyriwch y dyfyniad uchod.

Mae ein tri maen prawf allweddol ar gyfer y gronfa hon yn cyd-fynd â'r meddylfryd hwn (gweler Sut rydym yn asesu eich cais, isod).

Rydym am glywed am eich heriau **chi** sydd wedi'i ysbrydoli i feddwl am ffyrdd o weithio i dreftadaeth yn y dyfodol.

Dyma rai o'r pynciau a godwyd yn ein hymchwil:

- sut i ameywio gweithlu treftadaeth y dyfodol drwy archwilio dulliau recriwtio newydd, rolau newydd, cysylltiadau â sectorau a lleoedd eraill
- ail-ddychmygu dyfodol gwirfoddoli
- goresgyn heriau cadw drwy lwybrau dilyniant, cynigion iechyd a llesiant gwell, gweithio hyblyg, ac ati
- manteisio i'r eithaf ar dechnolegau a dulliau newydd sy'n symleiddio prosesau craidd ac yn creu gwell amodau i staff a gwirfoddolwyr

Expand All accordions

Yr hyn y gallwch wneud cais amdano

Bydd cam Archwilio'r Gronfa Arloesi Treftadaeth yn darparu hyd at **£25,000 a chwe mis o gymorth hyfforddi ac arloesi i grantïon** i archwilio'ch her a datblygu rhai syniadau cychwynnol i brototeipio.

Yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni

- mynediad i garfan o grantïon eraill y Gronfa Arloesi Treftadaeth
- mynediad at arbenigwyr arloesi a fydd yn eich hyfforddi a'ch cefnogi
- cyllid i dalu am amser staff i archwilio'r broblem yr ydych yn ei hwynebu a dechrau fframio atebion posibl
- cyllid ar gyfer costau gweithgareddau cysylltiedig yn y cyfnod archwilio hwn

Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gennych chi

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cymryd rhan mewn rhaglen dysgu a datblygu arloesedd, dan arweiniad The Young Foundation.

Bydd hyn yn cynnwys:

- chwe sesiwn ar-lein 3.5 awr (tua un y mis) gyda holl gyfranogwyr y rhaglen
- cymorth hyfforddi unigol/tîm dros chwe mis

Bydd y cymorth hwn yn helpu unigolion a thimau i feithrin eu hyder, eu sgiliau a'u galluoedd mewn arferion arloesi.

Mae cymryd rhan yn y rhaglen gymorth **yn allweddol i chi dderbyn eich cyllid grant**. Dylid ei gynnwys yn eich gwaith cynllunio adnoddau, ochr yn ochr â'r gwaith ar eich prosiectau arloesi fel rhan o'r prosiect.

Cymorth uwch

Rydym hefyd yn disgwyl i chi gael cefnogaeth gan uwch arweinwyr yn eich sefydliad. Gofynnwn i bob ymgeisydd enwi uwch arweinydd a fydd yn neilltuo amser i gefnogi eich gwaith ac eiriol drosto.

Dylid cofnodi hyn yn eich ffurflen gais fel cyfraniad nad yw'n arian parod.?

Expand All accordions

Dyddiadau allweddol

- ar agor ar gyfer ceisiadau: 5 Gorffennaf 2022
- cronfa yn cau ar gyfer ceisiadau: **hanner dydd 27 Medi 2022**
- cyfnod cyfweld: 16 Tachwedd – 1 Rhagfyr 2022
- penderfyniadau a gyhoeddwyd: Rhagfyr 2022

Cymorth ymgeisio

- cynhaliwyd gweminar (gweler recordiad) yn cyflwyno'r Gronfa Arloesedd Treftadaeth am 11am ddydd Iau 21 Gorffennaf 2022
- gweithdai i'ch helpu i fireinio eich syniad (un digwyddiad i bob sefydliad): Dydd Iau 4 Awst, dydd Mercher 24 Awst , dydd Mawrth 13 Medi

Expand All accordions

Sut i wneud cais

Gwnewch gais gan ddefnyddio ein gwasanaeth Cael cyllid ar gyfer prosiect treftadaeth.

Noder: mae'r Gronfa Treftadaeth yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws ein holl raglenni ariannu. Bydd angen ateb rhai cwestiynau'n wahanol ar gyfer y Gronfa Arloesi Treftadaeth – defnyddiwch y nodiadau cymorth ymgeisio hyn i'ch helpu i ateb. ***[ychwanegu dolen]***

Peidiwch â defnyddio'r eiconau cymorth ar y ffurflen (oherwydd eu bod yn ymwneud â'n rhaglenni ariannu eraill).

Faint o geisiadau y gallaf eu gwneud?

Rydym yn disgwyl i sefydliadau wneud un cais yn unig i'r Gronfa Arloesi Treftadaeth.

Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i helpu sefydliadau i ddrilio i lawr i un maes her gweithlu yn fanwl. Bydd cyfle i fireinio eich her a'ch ffocws penodol ynddo fel rhan o'r cam Archwilio.

Sefydliadau ymbarél

Gall sefydliadau sydd o dan un sefydliad ymbarél ond sy'n gweithredu ar draws sawl safle ledled y DU gyflwyno mwy nag un cais. Mae'n rhaid iddynt allu dangos yr angen, a bod ganddynt y gallu i gyflawni o fewn yr amser sydd ar gael.

Dylai pob cais sefyll ar ei ben ei hun a chaiff ei asesu yn unol â'r meini prawf a nodir yn y canllawiau hyn.

Awgrymiadau ar lenwi'r ffurflen gais

Teitl ein prosiect

Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r fformat canlynol ar gyfer teitl eich prosiect: "Explore: enw eich sefydliad".

Mae hyn er mwyn i ni wybod eich bod yn gwneud cais am y Gronfa Arloesi Treftadaeth. Fel arall, efallai y bydd eich cais yn cael ei ohirio neu ei ystyried o dan y rhaglen anghywir.?

Dogfennau ategol

Bydd angen y dogfennau ategol canlynol:

- dogfen lywodraethol??
- cyfrifon y sefydliad??
- CV yr unigolyn/unigolion a fydd yn arwain y prosiect neu ddatganiad o pam y cawsant eu dewis i arwain y gwaith ?
- llythyr cymorth (dewisol) gan uwch arweinydd yn eich sefydliad, yn nodi faint o amser y byddant yn ei neilltuo i'r rhaglen fel 'noddwr' ar gyfer y gwaith

Cymorth technegol

I gael cymorth technegol neu gymorth gyda hygyrchedd, cysylltwch â'n tîm gwasanaeth cwsmeriaid drwy e-bost: enquire@heritagefund.org.uk.

Expand All accordions

Sut rydym yn asesu eich cais

Byddwn yn asesu ceisiadau cymwys ar dri maen prawf allweddol:

1. Her gymhellol sy'n gysylltiedig â'r gweithlu treftadaeth?

Dylai'r her fod yn sylweddol yn awr, ond hefyd yn broblem barhaus a hirdymor.

Dylai fod yn berthnasol i'ch sefydliad penodol, ond hefyd yn un y gallai sefydliadau treftadaeth eraill ddysgu ohono.

2. Ymrwymiad i arloesi

Rydym yn chwilio am ymrwymiad i ddysgu a gweithio yn yr awyr agored.

Rydym am weld y sefydliad ehangach yn barod i ymgysylltu â'ch canfyddiadau a'ch methiannau. Byddwch yn gallu dangos bod eich sefydliad yn barod ac yn barod i ddysgu ac arbrofi.

Byddwch yn gallu dangos ymrwymiad i rannu syniadau, gwaith a dysgu – cadarnhaol a negyddol – gydag eraill (y tu mewn a'r tu allan i'ch sefydliad) fel rhan o'r broses hon.?

Rydym am wybod sut y gallai gweithio gyda gr?p cyfoedion eich helpu yn eich datblygiad personol a sefydliadol.?????

Gallwch hefyd ddangos ymrwymiad clir i neilltuo'r amser a'r egni i'r gwaith hwn a'i fod yn cael ei ategu gan ymrwymiad gan arweinyddiaeth eich sefydliad.

3. Arweinydd/au enwebedig y prosiect a all ymgysylltu â'r sefydliad cyfan

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr lle bydd y cyllid yn helpu i ryddhau eu hamser i ymgysylltu â'r rhaglen ac ychwanegu gwerth at waith craidd presennol y sefydliad. Gallwch ddangos bod gan yr arweinydd/arweinwyr a enwir y sgiliau a'r gallu i ymgysylltu â'r rhaglen gymorth a chyflawni'r gwaith hwn.

Nid yw teitl eich swydd na lefel eich statws yn bwysig. Mae'n bwysicach eich bod yn cael cefnogaeth ehangach eich sefydliad i'ch helpu i ymgysylltu â'r rhaglen.

Ffactorau eraill

Bydd angen i chi hefyd ddangos eich sefydlogrwydd sefydliadol cyffredinol. Gallwch ddangos tystiolaeth o strwythurau llywodraethu cadarn.**?**

Meini prawf cydbwyso

Wrth wneud penderfyniadau dyfarnu terfynol, byddwn yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod grantiau'n cael eu cydbwyso ar draws math o dreftadaeth, lleoliad daearyddol a math o sefydliad.

Expand All accordions

Beth sy'n digwydd ar ôl i chi wneud cais

Mae dau gam i'r broses asesu ceisiadau:

- byddwn yn asesu pob cais yn erbyn y meini prawf llawn uchod i wneud rhestr fer. Ein nod yw rhoi gwybod i chi os ydych wedi cyrraedd y rhestr fer erbyn 6 Tachwedd 2022.
- bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad, ac ar ôl hynny bydd panel yn gwneud penderfyniad terfynol. Ein nod yw rhoi gwybod i chi am ein penderfyniad erbyn mis Rhagfyr 2022.

Bydd rhagor o fanylion am y cyfweliad yn cael eu rhoi i ymgeiswyr ar y rhestr fer yn nes at yr amser.

Beth sy'n digwydd os byddwch yn aflwyddiannus?

Ni allwn roi adborth unigol ar bob cais aflwyddiannus.

Fodd bynnag, gan mai cronfa beilot yw hon, byddwn yn rhannu ein gwersi allweddol ein hunain a'n myfyrdodau ar y broses ariannu gyda sefydliadau aflwyddiannus yn ddiweddarach.

Beth sy'n digwydd os byddwch yn llwyddiannus?

Darllenwch ein canllawiau grant Derbyn Cronfa Arloesi Treftadaeth.

Beth sy'n digwydd ar ôl fy grant chwe mis?

Ar ôl cwblhau'r cam Archwilio, ein nod yw cynnig cyfle i sefydliadau wneud cais am arian ychwanegol yng nghamau Profi a Thyfu'r Gronfa Arloesi Treftadaeth.

Dim ond sefydliadau sydd wedi cwblhau'r cam Archwilio all wneud cais am unrhyw gamau dilynol o'r Gronfa Arloesi Treftadaeth.?

Nid yw cymryd rhan yn y cam Archwilio yn gwarantu cyllid pellach i chi. Rhan allweddol o'r broses arloesi yw derbyn na fydd pob syniad yn llwyddo. Efallai y bydd y broses archwilio yn datgelu nad yw eich syniad yn haeddu profion pellach.

Bydd rhagor o fanylion am gamau nesaf y Gronfa Arloesi Treftadaeth ar gael yn ddiweddarach.

Expand All accordions

Gofynion cyfreithiol a pholisi

Rheoli cymhorthdal

Ar adeg cyhoeddi'r canllawiau hyn, nid yw arian cyhoeddus ar gyfer sefydliadau bellach yn cael ei lywodraethu gan reolau cymorth gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd. Mae hyn fel y nodir yn Erthygl 107–109 o Gytuniad Gweithrediad yr Undeb Ewropeaidd a'r rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig.

Yn hytrach, mae pob penderfyniad grant a wneir ar ôl 11pm ar 31 Rhagfyr 2020 yn ddarostyngedig i drefn rheoli cymhorthdal newydd y DU. Nodir yr egwyddorion ym Mhennod 3 (Cymorthdaliadau) o Teitl XI (Maes Chwarae Gwastad) o Ran Dau (Masnach, Trafnidiaeth, Pysgodfeydd a Threfniadau Eraill) o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Disgwylir y bydd canllawiau pellach, ymgynghoriad a deddfwriaeth newydd o bosibl yn y maes hwn i adeiladu ar yr egwyddorion hynny. Disgwylir i chi gydymffurfio ag egwyddorion y gyfundrefn rheoli cymhorthdal a bodloni unrhyw ofynion yn y dyfodol. Bydd cytundebau sy'n cael eu llunio yn cael eu hadolygu a'u hamrywio yn unol â hynny. Rydym yn cadw'r hawl i osod gofynion pellach ac amodau ychwanegol mewn perthynas â'r mater hwn.

Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio a oes angen caniatâd cymorth gwladwriaethol neu ganiatâd rheoli cymhorthdal. Ceisiwch gyngor cyfreithiol annibynnol os nad ydych yn si?r a fydd angen clirio prosiect.

Rheoli eich data

I gael rhagor o wybodaeth am sut y caiff eich data ei brosesu o dan y rhaglen grant hon, gweler ein polisi preifatrwydd.

Gwneud cwyn

Gallwch ddarganfod sut i wneud cwyn ar ein tudalennau Gwneud cwyn: Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a Gwneud cwyn: Yr Alban.

Diweddariadau

- **21 Gorffennaf 2022:** adran dyddiadau allweddol wedi'i diweddaru i gynnwys dolenni i weithdai.
- **2 Awst 2022:** dolen i'r gweminar cymorth ymgeiswyr a recordiwyd wedi'i ychwanegu at adran Dyddiadau Allweddol
- **4 Hydref 2022**: rhaglen wedi dod i ben.
- **9 Tachwedd 2022**: y dyddiad pan fyddwn yn hysbysu ymgeiswyr os ydynt wedi cyrraedd y rhestr fer yn yr adran 'Beth sy'n digwydd ar ôl i chi wneud cais' gael ei newid i ganol mis Tachwedd.

Tag Link
Rhaglenni sydd wedi cau

Nodiadau Cymorth Ymgeisio: Gronfa Arloesi Treftadaeth

05/07/2022

See all updates

Diweddariadau i'r dudalen

Crëwyd y dudalen ar 5 Gorffennaf 2022.

Tudalen wedi'i diweddaru ddiwethaf ar 25 Gorffennaf 2022. Gweler yr holl ddiweddariadau ar waelod y dudalen hon.

Defnyddio'r nodiadau cymorth

Rydym yn derbyn ceisiadau am grantiau o hyd at **£25,000**.

Mae'r Gronfa Treftadaeth yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws ein holl raglenni ariannu. Bydd angen ateb rhai cwestiynau'n wahanol ar gyfer y Gronfa Arloesi Treftadaeth – defnyddiwch y nodiadau cymorth hyn i'ch helpu i wneud cais.

Peidiwch â defnyddio'r eiconau cymorth ar y ffurflen (oherwydd eu bod yn ymwneud â'n rhaglenni ariannu eraill).

Y term "prosiect"

Defnyddir y term "prosiect" ar lawer o'n ffurfiau presennol. Fodd bynnag, mae'r Gronfa Arloesi Treftadaeth wedi'i thargedu at gefnogi sefydliadau i archwilio maes problemus, a allai gynnwys gweithio ar sail prosiectau. O ran y cyllid penodol hwn, mae'r gair "prosiect" yn cyfeirio at yr amser pan fyddwch yn archwilio eich problem neu'ch maes her.

Cymorth ychwanegol

Byddwn yn cynnal gweminarau a gweithdai i'ch helpu i wneud cais. Darganfyddwch fwy.

Cofrestru

Os nad oes gennych gyfrif defnyddiwr eisoes, bydd angen i chi gofrestru ar gyfer ein gwasanaeth Cael cyllid ar gyfer prosiect treftadaeth.

Os na allwch sefydlu eich cyfrif neu os oes gennych unrhyw broblemau technegol eraill, e-bostiwch:investment-service-support@heritagefund.org.uk.

Sut i ddechrau ffurflen gais newydd

1. Cliciwch Dechrau Cais Newydd a dewis grantiau o £10,000 i £250,000. **[gwirio cyfatebiadau IMS newydd]**

2. Cliciwch Dechrau Rhaglen Newydd. Sylwer na ddylech wneud cais am fwy na £25,000.

Os byddwch yn copïo ac yn gludo testun yn uniongyrchol i'ch cais, sicrhewch nad ydych yn mynd y tu hwnt i'r terfyn cyfrif geiriau a nodwyd.

Peidiwch ag anghofio cadw cynnydd eich cais wrth i chi weithio arno.

Yngl?n â'ch prosiect

Dywedwch wrthym am unrhyw gyngor a gawsoch wrth gynllunio eich prosiect a phwy ohoni.

Ydych chi wedi cael unrhyw gymorth neu gyngor gan ein tîm ymgysylltu neu'r Young Foundation? Wnaethoch chi ymuno â gweminar neu weithdy cyn ymgeisio?

Ai hwn yw cais cyntaf eich sefydliad i ni?

Atebwch ie neu na.

Os na, rhowch fanylion eich cais diwethaf i ni.

Enw'r prosiect

Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r fformat canlynol ar gyfer teitl eich prosiect: "Explore: enw eich sefydliad".

Mae hyn er mwyn i ni wybod eich bod yn gwneud cais am y Gronfa Arloesi Treftadaeth. Fel arall, efallai y bydd eich cais yn cael ei ohirio neu ei ystyried o dan y rhaglen anghywir.?

Pryd fydd eich prosiect yn digwydd?

Rhowch ddyddiad dechrau'r prosiect ym mis Chwefror 2023 a dyddiad gorffen y prosiect ym mis Gorffennaf 2023.

Y rheswm am hyn yw bod holl brosiectau'r Gronfa Arloesi Treftadaeth yn dechrau ar yr un pryd er mwyn ymuno â'r rhaglen cymorth carfan.

Pam mae angen i'ch prosiect ddigwydd nawr?

Dywedwch wrthym am yr her fwyaf dybryd sy'n gysylltiedig â'r gweithlu yr ydych am fynd i'r afael â hi gyda'r cyllid hwn gan gynnwys:

- sut y bydd yr her yn effeithio ar eich sefydliad yn y tymor byr, canolig a hir
- pwy mae'n effeithio/a fydd yn effeithio arnyn nhw
- sut y bydd yn effeithio ar eich sefydliad yn y dyfodol os na chymerir unrhyw gamau

A yw'r prosiect yn digwydd yn yr un lleoliad â chyfeiriad eich sefydliad?

Atebwch ie neu na.

Os na, cliciwch Dod o hyd i'ch cyfeiriad.

Disgrifiwch eich syniad

Mewn dim mwy na **500 o eiriau**, rhowch grynodeb o'r hyn y byddech yn canolbwyntio arno a sut y byddech yn elwa o'r cyllid a'r cymorth sydd ar gael. Mae'n rhaid cynnwys:

- esboniad o'r her i'r gweithlu yr ydych am ganolbwyntio arni. Efallai yr hoffech ddweud wrthym rai o'r cwestiynau y byddwch yn anelu at eu hateb.
- pam mae hyn yn bwysig. Sut ydych chi'n gwybod bod hyn yn broblem a pha gamau yr ydych wedi'u cymryd i ymateb i'r her hon yn barod?
- sut y gallai mynd i'r afael â'r her hon fod yn ddefnyddiol y tu hwnt i'ch sefydliad
- beth mae cael yr amser a'r gefnogaeth i'w archwilio ac i gwmpasu atebion posibl yn ei olygu i ragolygon eich sefydliad i'r dyfodol

Os oes angen, defnyddiwch bwyntiau bwled.

Sylwch mai'r crynodeb rydych chi'n ei ddarparu yw'r unig ran o'ch ffurflen gais sy'n **cael ei gweld gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau**. Cyflwynir hyn ochr yn ochr ag asesiad ein swyddog o'ch cais.

A fydd gwaith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect?

Atebwch na. Nid yw gwaith cyfalaf yn gymwys o dan y Gronfa Arloesi Treftadaeth.

Os ydych yn gwneud unrhyw waith cyfalaf (gan gynnwys atgyweirio, adnewyddu ac ati) ar dir, adeiladau neu eitemau treftadaeth, dywedwch wrthym pwy sy'n berchen arno.

Gadewch yn wag.

A yw eich prosiect yn cynnwys caffael adeilad, tir neu eitemau treftadaeth?

Atebwch na. Nid yw caffael adeiladau, tir nac eitemau treftadaeth yn gymwys o dan y Gronfa Arloesi Treftadaeth.

A oes angen caniatâd unrhyw un arall arnoch i wneud eich prosiect?

Atebwch ie, na, ddim yn si?r.

Eglurwch yma os ydych wedi cofrestru gan eich rheolwr llinell/uwch reolwyr/bwrdd i weithio ar y prosiect hwn dros y chwe mis nesaf.

Pa wahaniaeth fydd eich prosiect yn ei wneud?

Dywedwch wrthym:

- sut y byddech yn defnyddio'r lle a'r amser i ddarganfod y tu allan i'ch prif waith
- sut y byddai hyn yn caniatáu ichi fynd i'r afael â'r her yn wahanol
- pam mae gan eich sefydliad ddiddordeb mewn ymuno â charfan arloesi. Beth allai fod fwyaf heriol neu werth chweil i chi am weithio mewn lleoliad carfan.
- sut y bydd gwneud y gwaith hwn yn datgloi potensial eich sefydliad/cymuned yn y dyfodol

A ystyrir bod y dreftadaeth mewn perygl?

Atebwch ie neu na.

Os ydych, eglurwch sut y gallai cynaliadwyedd a gwasanaethau eich sefydliad gael eu heffeithio os na chaiff yr her hon ei chyflawni.

A oes gan y dreftadaeth unrhyw ddynodiadau ffurfiol?

Dewiswch unrhyw opsiynau sy'n berthnasol.

A yw eich prosiect yn cynnwys treftadaeth sy'n denu ymwelwyr?

Atebwch ie neu na.

Os ydych, rhowch ffigurau.

Pam mae eich prosiect yn bwysig i'ch cymuned?

Dywedwch wrthym am bwysigrwydd mynd i'r afael â'r her hon: i'ch sefydliad, eich cymuned a'r sector ehangach.

- Dywedwch wrthym pam mae eich cymuned yn ystyried bod y prosiect hwn yn bwysig.
- I ba raddau y mae eich her yn cael ei rhannu gan sefydliadau ac ymarferwyr treftadaeth eraill?
- Pwy o fewn eich rhwydweithiau presennol sydd wedi ymgysylltu â'r her hon hyd yn hyn, a sut?
- Pwy y tu allan i'ch rhwydweithiau presennol a hoffech chi ymgysylltu â nhw a chysylltu â nhw ar y mater hwn?

Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i gynyddu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol?

Rydym yn disgwyl i'r safonau uchaf o gynaliadwyedd amgylcheddol gael eu cyflawni gan yr **holl** brosiectau a ariennir gennym. Darganfyddwch fwy am ein gofyniad cynaliadwyedd amgylcheddol.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r prosiect ddod i ben?

Dywedwch wrthym sut rydych yn bwriadu gweithredu mewnwelediadau'r prosiect hwn ar ôl i'r cyfnod ariannu a'r rhaglen gymorth ddod i ben.

Pam mai eich sefydliad chi sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r prosiect yma?

Dywedwch wrthym sut mae'r weithrediaeth a/neu ymddiriedolwyr yn eich sefydliad yn edrych ar eich cais i'r Gronfa Arloesi Treftadaeth.

Pa ymwybyddiaeth sydd ganddynt o'ch her a sut y byddant yn cymryd rhan??

A fydd eich prosiect yn cael ei gyflawni gan bartneriaeth?

Os bydd:

Pwy yw eich partneriaid?

Rhowch enw cyswllt gan bob sefydliad. Sylwch os ydych yn bwriadu gweithio gyda sefydliad arall i gyflawni eich prosiect, hoffem weld eich cytundeb partneriaeth. Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r partner a dylai pob plaid ei llofnodi. Dylai'r cytundeb hwn adlewyrchu anghenion eich prosiect ac efallai y bydd angen i chi ofyn am gyngor annibynnol.

Nid oes angen i chi ddarparu cytundeb partneriaeth oni bai bod sefydliad arall yn cyflawni rhan sylweddol o'ch prosiect. [500 o eiriau]

Os oes gennych un, uwchlwythwch gytundeb partneriaeth.

Allbynnau

Rydym yn disgrifio'r gwahaniaeth rydym am ei wneud gyda'n cyllid drwy gyfres o naw canlyniad. Canlyniadau yw newidiadau, effeithiau neu fanteision sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'n cyllid.

Y canlyniadau gorfodol ar gyfer y Gronfa Arloesi Treftadaeth yw:

- bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth
- bydd y sefydliad a ariennir yn fwy gwydn
- bydd pobl wedi datblygu sgiliau

Gan ddefnyddio'r awgrymiadau isod, dywedwch wrthym sut y bydd y cyllid grant, sy'n cymryd rhan yn y rhaglen cymorth arloesi strwythuredig a gweithio fel rhan o garfan yn mynd i'r afael â'r **tri chanlyniad**.

Gan mai grantiau bach yw'r rhain, nid oes angen i chi fynd i'r afael â **phob** pwynt bwled isod.

Bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth

- Sut y bydd ymchwilio i'r her hon yn eich galluogi i gynnwys ystod ehangach o bobl wrth gael mynediad i dreftadaeth?
- Pwy y tu allan i'ch rhwydweithiau presennol a hoffech chi ymgysylltu â nhw a chysylltu â nhw ar y mater hwn?
- Sut y byddwch yn ymgysylltu â staff a gwirfoddolwyr yn eich sefydliad gyda'r her hon?

Bydd y sefydliad a ariennir yn fwy gwydn

- Sut bydd gwneud y gwaith hwn yn gwneud eich sefydliad a'ch tîm staff yn gryfach ac yn fwy gwydn?
- Sut y byddwch yn gweithredu unrhyw gamau a nodwyd yn ystod y prosiect?

Bydd pobl wedi datblygu sgiliau

- Sut bydd gwneud y gwaith hwn yn gwneud eich sefydliad a'ch tîm staff yn gryfach ac yn fwy gwydn?
- Sut y byddwch yn gweithredu unrhyw gamau a nodwyd yn ystod y prosiect?

A fydd eich prosiect yn cyflawni unrhyw un o'n canlyniadau eraill?

Atebwch na. Nid oes angen i chi ddweud wrthym am y canlyniadau eraill.

Rheoli prosiectau

- Sut bydd eich prosiect yn cael ei reoli?
- Pwy fydd yn arwain y prosiect hwn o fewn eich sefydliad a pham?
- Pa gamau y bydd eich sefydliad yn eu cymryd i alluogi arweinydd y prosiect i gael yr amser i gymryd rhan?
- Dywedwch wrthym am unrhyw gynlluniau wrth gefn, neu ble y gallwch gyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd, rhag ofn y bydd angen newidiadau?

- Sut y bydd llwyth gwaith arferol arweinydd y prosiect yn cael ei gynnwys? Cofiwch: gellir defnyddio'r arian grant yn rhannol i ôl-lenwi.

Sut y byddwch yn gwerthuso eich prosiect?

Mae'r Gronfa Arloesi Treftadaeth yn canolbwyntio ar alluogi sefydliadau i ddysgu a datblygu tra'n archwilio her bwysig y maent yn ei hwynebu.

Bydd ymgysylltu â'r partner cymorth grantî (a ariennir ac a benodir gan y Gronfa Treftadaeth) yn fesur allweddol o gynnydd. Fel rhan o hyn, bydd sefydliadau'n myfyrio ar eu dysgu eu hunain ar adegau allweddol.

Rhowch amlinelliad yma am:

- yr hyn y mae eich sefydliad yn gobeithio ei ennill drwy gymryd rhan yn y rhaglen hon
- beth yw eich gobeithion a'ch ofnau am ymuno â charfan
- beth fyddai'n eich gwneud yn fodlon ar ddiwedd y chwe mis

Sut ydych chi'n bwriadu cydnabod eich grant?

Rhowch fanylion am sut y byddwch yn cydnabod y grant hwn.

Dywedwch wrthym am unrhyw swyddi neu brentisiaethau y byddwch yn eu creu i gyflawni eich prosiect

Os ydych yn ôl-lenwi neu'n ymestyn oriau swydd i gynnwys yr aelod staff enwebedig, dywedwch wrthym sut y caiff hyn ei reoli.

Costau'r prosiect

Mae costau prosiect yn ein helpu i ddeall sut rydych yn bwriadu rhoi eich prosiect ar waith.

Mae'r cyllid grant yn talu costau amser staff i gymryd rhan yn y rhaglen hon a chyflawni'r prosiect dros y cyfnod o chwe mis. Mae hyn yn cynnwys:

- costau cyflog/costau ôl-lenwi gan gynnwys ar gostau'r aelod allweddol o staff sy'n arwain y gwaith
- costau cysylltiedig mynychu unrhyw gydrannau wyneb yn wyneb o'r rhaglen
- costau cysylltiedig darparu gweithgareddau fel rhan o'r prosiect (megis digwyddiadau neu weithgareddau ymgynghori â rhanddeiliaid)
- gellir defnyddio hyd at 10% o'r grant i dalu costau caledwedd hanfodol sydd ei angen i weithio ar y prosiect

Cwblhau tabl costau'r prosiect

Ychwanegu cost newydd ar gyfer pob cost prosiect. Er enghraifft, os ydych yn gwneud tri gweithgaredd, ychwanegwch dri math o gost gweithgaredd ar wahân, pob un â'i ddisgrifiad a'i swm ei hun.

Math o gost: dewiswch o'r rhestr.

Gall y mathau canlynol o gostau eich helpu i:

- costau staff newydd
- ffioedd proffesiynol
- recriwtio
- offer a deunyddiau, gan gynnwys deunyddiau dysgu
- hyfforddiant i staff a hyfforddiant i wirfoddolwyr
- teithio i staff a theithio i wirfoddolwyr
- treuliau ar gyfer staff a gwirfoddolwyr
- arall: defnyddiwch ar gyfer unrhyw gostau nad ydynt yn cyd-fynd ag unrhyw un o'r penawdau cost eraill
- cyhoeddusrwydd a hyrwyddo
- wrth gefn: byddem yn eich annog i gynnwys arian wrth gefn i dalu am gostau annisgwyl sydd eu hangen i gyflawni eich prosiect. Gall cyfanswm y ffigur wrth gefn fod hyd at 10% o gyfanswm costau'r prosiect. Sicrhewch eich bod ond yn cynnwys eich arian wrth gefn gofynnol yma ac nad ydych wedi'i gynnwys yn y penawdau cost eraill yn y cais.
- disgrifiad: disgrifio beth fydd y llinell gost hon yn mynd tuag at
- swm: Gall hyn fod yn amcangyfrif
- TAW (Treth ar Werth) Swm: cynnwys TAW na ellir ei hadennill yn y golofn hon. Ni chewch dalu TAW ar fathau penodol o waith neu dim ond ar gyfradd is y gallwch ei thalu. Dylech gysylltu â Chyllid a Thollau EM i wirio faint o TAW y bydd angen i chi ei thalu.
- Adfer Cost Llawn

Cymorth ar gyfer eich prosiect

Dewiswch na. Nid oes angen cyllid partneriaeth ar gyfer y Gronfa Arloesi Treftadaeth.

Ychwanegu cyfraniad nad yw'n arian parod

Gofynnwn i chi ymrwymo cyfran fach o amser uwch arweinydd fel noddwr prosiect. Disgrifiwch y trefniant hwnnw yma.

Gwirfoddolwyr

Gadewch yn wag. Nid oes angen cyfraniadau gwirfoddolwyr ar gyfer y Gronfa Arloesi Treftadaeth. Fodd bynnag, os oes manylion penodol yn ymwneud â chyfranogiad gwirfoddolwyr yn y prosiect hwn, dywedwch wrthym yma.

Tystiolaeth o gefnogaeth

Llythyr dewisol o gefnogaeth gan yr uwch arweinydd sy'n gweithredu fel noddwr ar gyfer y prosiect hwn.

Mae'n rhaid lanlwytho'r dogfennau ategol canlynol gyda'ch ffurflen gais. Dylai maint ffeiliau fod yn llai nag 20MB.

Dogfennau ategol

1. Lanlwytho dogfen lywodraethol eich sefydliad

Cyn i ni asesu eich cais, mae angen i ni weld copi o ddogfen lywodraethol eich sefydliad.

Dogfen swyddogol yw hon sy'n nodi dibenion a rheolau gweithredu eich sefydliad. Mae'n ffurfioli llywodraethu ac yn esbonio sut a chan bwy y gwneir penderfyniadau. Fe'i gelwir weithiau'n gyfansoddiad, llyfr rheolau, cylch gorchwyl, memorandwm ac erthyglau cymdeithasu, neu ddatganiad o ymddiriedaeth.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn darparu canllawiau ar greu dogfen lywodraethol.

Ni allwn dderbyn eich cais os nad yw eich dogfen lywodraethol yn cynnwys yr uchod.

Sicrhewch bod eich cais yn dod o fewn nodau eich sefydliad.

- enw a nodau eich sefydliad
- datganiad sy'n atal eich sefydliad rhag dosbarthu incwm neu eiddo i'w aelodau yn ystod ei oes
- datganiad sy'n cadarnhau, os caiff eich sefydliad ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, y bydd asedau'r sefydliad yn cael eu dosbarthu i sefydliad elusennol neu ddielw arall ac nid i aelodau'r sefydliad
- y dyddiad y cafodd ei fabwysiadu a llofnod eich cadeirydd (neu berson awdurdodedig arall)

Ni allwn dderbyn eich cais os nad yw eich dogfen lywodraethol yn cynnwys yr uchod.

Sicrhewch bod eich cais yn dod o fewn nodau eich sefydliad.

Nid oes angen i chi lanlwytho eich dogfen lywodraethol os ydych:

- sefydliad cyhoeddus, er enghraifft, awdurdod lleol

- elusen sydd wedi'i chofrestru gyda Chomisiynau Elusennau Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon

- un o'r sefydliadau eglwysig canlynol:

- Eglwys y Bedyddwyr
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Eglwys Loegr
- Eglwys yr Alban
- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Yr Eglwys Gatholig Rufeinig
- Eglwys Episcopal yr Alban
- Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig

2. Lanlwythocyfrifon eich sefydliad

Cyn i ni asesu eich cais, mae angen i ni weld cyfrifon diweddaraf eich sefydliad.

Sicrhewch bod eich cyfrifon wedi'u harchwilio neu eu gwirio'n ddiweddar gyda dyddiad a llofnod gan eich prif swyddog ariannol neu swyddog cyfatebol.

Nid oes angen i chi lanlwytho'ch cyfrifon os ydych:

- sefydliad cyhoeddus. Er enghraifft, mae awdurdod lleol
- Os ydych yn sefydliad newydd ac nad oes gennych gyfrifon archwiliedig, gallwch gyflwyno'ch tri datganiad banc diwethaf, neu lythyr gan eich banc yn cadarnhau eich bod wedi agor cyfrif.

3. CV yr aelod staff enwebedig

Rhowch CV diweddar o'r unigolyn a fydd yn arwain y prosiect, neu ddatganiad o pam y cawsant eu dewis i arwain y gwaith.

Nid oes adran ddynodedig yn y ffurflen gais ar gyfer y ddogfen hon, felly lanlwythwch hi o dan "Briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir yn fewnol neu'n allanol".

Dogfennau ategol NAD OES eu hangen arnom

Mae'r ffurflen gais hefyd yn gofyn am y dogfennau ategol canlynol, **nad oes angen i chi eu darparu** ar gyfer y cais hwn:

- cynllun prosiect
- briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynwyd yn fewnol neu'n allanol (defnyddiwch y gofod hwn i uwchlwytho'r CV neu'r datganiad personol)
- delweddau prosiect
- cyfrifo adennill costau llawn

Os na fydd y ffurflen yn gadael i chi fwrw ymlaen heb lanlwytho rhywbeth, gallwch gyflwyno un o'r dogfennau uchod eto.

Diweddariadau

- **25 Gorffennaf 2022:**
  - Ychwanegwyd Adferiad Cost Llawn i'r adran 'Cwblhau tabl costau'r prosiect' am eglurder.
  - Mae sut rydym yn eich cynghori i ymateb i gwestiwn 'A fydd eich prosiect yn cael ei ddarparu gan bartneriaeth?' wedi newid i adlewyrchu y byddwn yn derbyn ceisiadau gan bartneriaethau.

Arweiniad derbyn grant: Cronfa Arloesi Treftadaeth

05/07/2022

See all updates

Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut y byddwch yn derbyn eich grant Cronfa Arloesi Treftadaeth. Mae hefyd yn esbonio'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gennych.

Crëwyd y dudalen: 5 Gorffennaf 2022

Llongyfarchiadau ar dderbyn grant.

Gobeithiwn y bydd yr arian hwn yn rhoi'r lle, yr amser a'r gefnogaeth gywir i chi archwilio'r her a nodwyd gennych a dechrau datblygu atebion arloesol a fydd yn cryfhau'r gweithlu treftadaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r arian y byddwch yn ei dderbyn yn arian cyhoeddus gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. O'r herwydd, mae dyletswydd arnom i sicrhau ei fod yn cael ei reoli mewn ffordd atebol. Mae hyn yn golygu bod nifer o brosesau y mae angen i chi eu dilyn drwy gydol oes eich grant. Rydym yn ceisio gwneud y rhain yn gymesur yn unol â lefel y grant rydych yn ei dderbyn.

Rydym yn hoffi gweithio mewn ffordd gydweithredol, felly cadwch mewn cysylltiad â ni os oes angen ein cefnogaeth arnoch neu os oes gennych fewnwelediadau penodol yr hoffech eu rhannu.

Eich pwynt cyswllt cyntaf yw'r person a enwir yn eich e-bost hysbysu.

Sut rydym yn gweithio gyda chi

Adrodd ar gynnydd

Mae'r cyllid hwn yn ymwneud â chefnogi eich sefydliad i dreulio amser yn archwilio'r maes problemus rydych wedi'i nodi. Mae gennym ddiddordeb mawr mewn dysgu o'r hyn a wnewch dros y chwe mis nesaf. Rydym am glywed am unrhyw ddarganfyddiadau neu atebion annisgwyl.

Efallai y byddwn hefyd yn ymuno â rhai o'r sesiynau carfan partner cymorth i glywed mwy am y gwaith rydych chi'n ei wneud a'r hyn rydych chi'n ei ddysgu ar hyd y ffordd.

Byddwn yn gofyn am ddau adroddiad cynnydd gennych chi (gweler "Taliadau" isod).

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau ymarferol sy'n effeithio ar eich sefydliad sy'n golygu nad ydych bellach yn gallu gwneud y gwaith nac ymgysylltu â'r partner cymorth, gan gynnwys:

- oedi sylweddol sy'n golygu na fydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlen chwe mis
- staff allweddol yn gadael a sut y byddwch yn sicrhau bod y gwaith yn parhau ar gyflymder ac o fewn amserlenni
- ailstrwythuro sefydliadol sylweddol
- newidiadau sy'n effeithio ar eich sefydlogrwydd ariannol neu lywodraethu
- newidiadau sylweddol i arweinyddiaeth eich sefydliad

Taliadau

Telir eich grant mewn tri rhandaliad:

1. Byddwch yn derbyn **50%** o'ch grant unwaith y byddwch wedi cael caniatâd i ddechrau eich prosiect.
2. Byddwch yn derbyn y **40%** nesaf unwaith y gallwch ddangos bod y 50% cyntaf o gyfanswm costau'r prosiect wedi'i wario. Dylai hyn gael ei ategu gan **adroddiad cynnydd** sy'n dangos y cynnydd rydych wedi'i wneud yn eich prosiect.
3. Rydym yn atal y **10%** olaf o'ch grant hyd nes y bydd y prosiect wedi'i gwblhau. Dim ond os yw cyfanswm costau'r prosiect wedi'i wario a bod tystiolaeth o hyn y byddwn yn talu hyn. Dylai eich **adroddiad cwblhau** ategu hyn.

Tystiolaeth o wariant

Cadwch yr holl anfonebau a derbynebau sy'n gysylltiedig â gwariant prosiect fel tystiolaeth.

Rhowch naill ai gyfriflyfr cyllid neu lythyr wedi'i lofnodi yn amlinellu costau staff (nid oes angen i ni weld copïau o slipiau cyflog ar gyfer unrhyw staff a benodir ar gyfer y prosiect).

Am symiau sy'n llai na £250 dylech ddarparu tabl costau ar wahân ar gyfer pob pennawd cost sy'n nodi dyddiad, swm a disgrifiad pob eitem o wariant. Dylai cyfanswm eich tabl gyfateb i'r cofnod sengl rydych chi'n ei fewnbynnu ar dabl costau eich prosiect gan ddefnyddio'r pennawd cost perthnasol.

Dogfennau pwysig

Mae eich contract grant gyda ni, y cyllidwr, yn cynnwys y canlynol:

- **Telerau ac Amodau** eich grant a'ch prosiect. Dewch o hyd i hyn ar y dudalen Gwirio manylion eich prosiect yn ein cael gwasaneth Cael cyllid ar gyfer prosiect treftadaeth.
- **unrhyw Amodau Grant Ychwanegol, os yw'n berthnasol**
- **Telerau Safonol y Grant**. Os oes unrhyw anghysondebau rhwng Telerau Safonol y Grant a'r Telerau ac Amodau, bydd Telerau Safonol y Grant yn cael blaenoriaeth
- y canllawiau Derbyn Grant ar y dudalen hon

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r contract grant, rydym yn cadw'r hawl i ofyn am ad-daliad o rywfaint neu'r cyfan o'ch grant.

Cyn dechrau eich prosiect, darllenwch hefyd:

- Canllawiau ymgeisio'r Gronfa Arloesi Treftadaeth
- Cydnabod eich grant
- Canllawiau gwerthuso

Rydym yn argymell bod pawb sy'n ymwneud yn agos â chyflawni eich prosiect yn gyfarwydd â'r cais a gyflwynwyd gennych i ni. Yn benodol, y canlyniadau rydych chi'n gobeithio eu cyflawni.

Dyddiad y daw'r grant i ben

Rhoddir dyddiad dod i ben eich grant yn eich e-bost hysbysu. Mae'n seiliedig ar y cyfnod o chwe mis a gynigir ar gyfer y math hwn o grant a'r cymorth ategol.

Mae'n rhaid i chi gwblhau eich gwaith arfaethedig a chyflwyno eich adroddiad cwblhau a'ch ffurflen gais am daliad terfynol erbyn y dyddiad y daw'r grant i ben.

Os byddwch yn profi oedi wrth gyflawni eich prosiect, gallwch ofyn am estyniad i'r dyddiad y daw'r grant i ben. Fodd bynnag, ni ellir darparu'r cymorth anariannol ategol y tu hwnt i'r cyfnod grant o chwe mis. Gall oedi sylweddol hefyd effeithio ar eich gallu i wneud cais am unrhyw gyllid cam nesaf y gallwn ei gynnig.

Ein nod yw bod yn hyblyg ond ni allwn warantu estyniad. Os bydd eich prosiect yn cymryd llawer mwy na chwe mis i'w gwblhau o ddyddiad eich e-bost hysbysu, efallai y byddwn yn terfynu eich grant ac yn gofyn am ad-dalu'r cyfan neu ran o'ch grant.

Amserlen y prosiect

Cyn dechrau'r cyfnod grant chwe mis bydd angen i chi:

- aros i chi dderbyn eich hysbysiad dyfarnu grant
- cyflwyno dogfennau cytundeb cyfreithiol wedi'u llofnodi
- mynychu cyfarfod cychwyn carfan gyda'n partner cymorth cyn i'r grant ddechrau'n ffurfiol

Y grant a'r cyfnod cymorth cyffredinol yw chwe mis. Yn ystod y cyfnod hwn bydd angen i chi:

- diffinio eich her a datblygu atebion posibl
- cymryd rhan yn y sesiynau partner cymorth rheolaidd dan arweiniad The Young Foundation
- anfon adroddiad cynnydd at eich Rheolwr Buddsoddi i ryddhau taliad hanner ffordd
- anfon adroddiad cwblhau at eich Rheolwr Buddsoddi i ryddhau'r taliad terfynol

Cefnogaeth rhaglen

Mae'r grant cyfnod Archwilio chwe mis o £25,000 yn cyd-fynd â rhaglen dysgu a datblygu arloesedd, dan arweiniad The Young Foundation. **Mae cymryd rhan yn y rhaglen gymorth yn allweddol i dderbyn eich grant.**

Bydd y cymorth hwn yn helpu unigolion a thimau i feithrin eu hyder, eu sgiliau a'u galluoedd mewn arferion arloesi.

- Bydd chwe sesiwn ar-lein 3.5 awr (tua un sesiwn y mis) gyda holl gyfranogwyr y rhaglen.
- Mae yna hefyd gynnig o gymorth hyfforddi unigol/tîm dros y chwe mis.

Ystyriwch gymryd rhan yn eich gwaith o gynllunio adnoddau.

Os na all eich cyswllt a enwir fynychu sesiwn neu adael eich sefydliad, disgwylir i'ch sefydliad drefnu yswiriant addas. Gall methu â gwneud hyn arwain at ad-dalu rhywfaint neu'r cyfan o'ch grant.

Bydd y cynnwys yn cynnwys:

- dysgu gydag eraill – drwy weithredu a phrofi syniadau, a dod ynghyd yn rheolaidd ag eraill i adolygu ein cynnydd a myfyrio ar yr hyn rydym yn ei ddysgu am sut mae arloesedd a newid yn digwydd
- arfer arloesi – rhannu ac esbonio offer y gellid eu defnyddio i gasglu mewnwelediad a mireinio diffiniad o'ch problem
- arwain newid – archwilio agweddau ar reoli newid a fydd yn caniatáu i sefydliadau agor i arbrofi a ffyrdd newydd o weithio

Darparu eich prosiect

Gwerthusiad

Nid yw'n ofynnol i chi gynnal gwerthusiad ffurfiol o'r gwaith a ariennir.

Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gofyn i chi roi adborth a rhannu eich meddyliau gan ein bod yn awyddus i ddysgu am yr hyn y gallem ei wella am y rhaglen hon.

Hyrwyddo'r grant Loteri Genedlaethol

Mae hyrwyddo a chydnabod y Loteri Genedlaethol yn un o amodau'r contract grant.

Darllenwch fwy am gydnabod eich grant.

Mae'n rhaid i chi gydnabod eich Grant yn gyhoeddus cyn gynted ag y bydd eich Prosiect yn dechrau drwy arddangos logo cydnabod y Loteri Genedlaethol.

Mae'n rhaid i chi hefyd sicrhau eich bod yn cynnwys logo'r Loteri Genedlaethol ar unrhyw wybodaeth a gynhyrchwch am eich Prosiect, er enghraifft, ar ddeunyddiau ymgynghori cyhoeddus. Mae'n rhaid i chi hefyd gynnwys y logo ar bob dyluniad neu gynllun a gynhyrchwch, ar bob adroddiad neu arolwg arbenigol, ac ar bob dogfen dendro neu hysbyseb swydd a ariennir gan eich grant.

Os nad ydych yn cydymffurfio â'n canllawiau cydnabod, rydym yn cadw'r hawl i roi'r gorau i wneud taliadau ac i ofyn am ad-daliad o rywfaint neu'r cyfan o'ch grant.

Os oes angen unrhyw help arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am gydnabod eich grant, cysylltwch â ni.

Hyrwyddo'r grant

Mae'n bwysig rhoi cyhoeddusrwydd i'ch dyfarniad grant i gyfryngau lleol fel bod chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn gwybod ble mae eu harian yn cael ei wario. Byddwn yn cyhoeddi'r ffaith eich bod wedi cael grant ar ein gwefan o fewn 20 diwrnod ar ôl i'ch grant gael ei ddyfarnu.

Gallwn eich cynorthwyo gydag ymholiadau am gyhoeddusrwydd a'r cyfryngau. Mae gennym dempled o ddatganiadau i'r wasg ar ein gwefan. Mae'r templedi'n cynnwys y geiriad cywir, felly bydd angen i chi fewnosod eich gwybodaeth am y Prosiect lle bo angen.

Recriwtio staff

Mae'n rhaid hysbysebu pob swydd staff gyda'r eithriadau canlynol:

- Os oes gennych aelod o staff sydd â chymwysterau addas ar eich cyflogres, rydych yn symud i'r swydd a grëwyd gan eich prosiect.
- Os oes gennych aelod o staff sydd â chymwysterau addas ar eich cyflogres y mae ei oriau'n ymestyn fel y gallant weithio ar y prosiect. Yn yr achos hwn byddwn yn ariannu cost eu horiau ychwanegol a dreulir ar y prosiect a bydd angen i chi ddweud wrthym am y rôl y byddant yn ymgymryd â hi.

Efallai y byddwn yn gofyn am gael gweld tystiolaeth o'r weithdrefn recriwtio a ddilynwyd gennych, felly cadwch y cofnodion hyn yn ddiogel. Os ydych yn symud aelod presennol o staff i swydd a grëwyd gan y prosiect, yna gallwn naill ai dalu am gost yr aelod hwn o staff, neu am y gost o ôl-lenwi ei swydd (lle mae cyflogai wedi'i neilltuo i swydd newydd a bod ei swydd yn cael ei llenwi dros dro gan gyflogai arall), pa gost bynnag yw'r gost.

Os hoffech benodi unrhyw aelodau newydd o staff ar eich prosiect sy'n gysylltiedig ag unrhyw aelodau o staff yn eich sefydliad, er enghraifft, unrhyw ffrindiau agos, perthnasau neu gyn-aelodau o staff, bydd angen i chi gael caniatâd ysgrifenedig gennym yn gyntaf.

Dylai pob cyflog fod yn seiliedig ar ganllawiau sector neu swyddi tebyg mewn mannau eraill.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol ac yn gynaliadwy. Rhaid i chi ddefnyddio'r gyfradd Cyflog Byw (a Chyflog Byw Llundain lle bo hynny'n berthnasol) ar gyfer holl staff y prosiect.

Cofnod ffotograffig

Efallai yr hoffech gasglu ffotograffau sy'n dangos eich cynnydd y gallwch ei rannu fel rhan o'ch adroddiad cynnydd neu adroddiadau cwblhau. Wrth gwblhau eich adroddiad cynnydd a'ch adroddiad cwblhau a'ch ffurflen gais am daliad terfynol, gallwch roi gwybod i ni os oes deunydd ffotograffig perthnasol o'ch prosiect ar gael ar y rhyngrwyd a ble y gellir dod o hyd iddo.

Efallai y byddwn yn defnyddio'ch delweddau mewn deunydd cyhoeddusrwydd. Drwy eu rhannu gyda ni rydych yn rhoi'r hawl i ni ddefnyddio'r rhai rydych chi'n eu darparu i ni ar unrhyw adeg, gan gynnwys eu newid. Rhaid i chi gael yr holl hawliau sydd eu hangen arnoch chi a ni i'w defnyddio cyn i chi eu defnyddio neu eu hanfon atom. Dylid rhannu'r delweddau hyn, ynghyd ag allbynnau digidol eraill o'ch prosiect, gyda Thrwydded Agored (Creative Commons Attribution 4.0 International). Os nad chi yw deiliad yr hawliau, rhaid i chi sicrhau bod gennych gytundeb i rannu'r delweddau hyn o dan y Drwydded Agored benodol hon.

Fel rhan o hyn, dylech sicrhau eich bod yn casglu caniatâd ysgrifenedig priodol gan unrhyw un sy'n ymddangos yn y delweddau hyn y gellir eu hailddefnyddio mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a deunyddiau hyrwyddo, ac y gellir eu rhannu ar-lein o dan y Drwydded Agored benodedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae delweddau'n cynnwys pobl ifanc neu oedolion sy'n agored i niwed a lle mae'n rhaid ceisio caniatâd penodol ymlaen llaw. Os oes angen unrhyw arweiniad arnoch ar hyn, siaradwch â ni.

Os nad yw eich delweddau'n addas i'w rhannu o dan Drwydded Agored, bydd angen rhoi trefniadau eraill ar waith. Siaradwch â ni cyn gynted â phosibl.

Ffurflenni ar-lein a mewngofnodi i'r porth

Bydd angen i chi lenwi cyfanswm o bedair ffurflen ar-lein yn ystod y broses o gyflwyno'r prosiect. Mae pob ffurflen i'w chael ar ein gwasanaeth Cael cyllid ar gyfer prosiect treftadaeth.

Mae'n rhaid i bob ffurflen gais am daliad gynnwys adroddiad cynnydd er mwyn derbyn taliad nesaf eich grant.

I fewngofnodi, bydd angen i chi ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a'r cyfrinair a ddefnyddiwyd gennych wrth wneud cais am grant. Os yw eich cyfeiriad e-bost wedi newid ers i chi gyflwyno'ch cais, cysylltwch â'ch swyddfa Cronfa Treftadaeth leol neu eich Rheolwr Buddsoddi.

Cytundeb cyfreithiol a ffurflen gais am daliad

Rydym yn disgwyl i chi gyflwyno eich cytundeb cyfreithiol wedi'i lofnodi o fewn pythefnos i ddyddiad eich hysbysiad e-bost.

Os bydd oedi sylweddol ac nad yw wedi dod i law o fewn chwe wythnos, efallai y byddwn yn penderfynu tynnu cynnig eich grant yn ôl.

Rhaid i'r cytundeb cyfreithiol gael ei gwblhau gan o leiaf ddau lofnodwr. Drwy lofnodi'r Datganiad, rydych yn cadarnhau bod eich sefydliad yn derbyn eich grant ac yn cytuno i gydymffurfio â'r contract grant. Dylech gadw copi wedi'i lofnodi ar gyfer eich cofnodion.

Unwaith y byddwn wedi cymeradwyo eich cais, byddwn yn rhoi gwybod i chi a byddwn yn awdurdodi taliad cyntaf eich grant. Yna gallwch ddechrau gweithio ar eich prosiect. Ni ddylech ddechrau unrhyw waith ar eich prosiect nes bod gennych ein caniatâd ysgrifenedig i wneud hynny. Os gwnewch hynny, mae ar eich menter eich hun.

Prosiectau sy'n cwblhau o dan y gyllideb

Os byddwch yn gwario llai na'ch costau y cytunwyd arnynt a bod eich prosiect yn cwblhau o dan y gyllideb, bydd angen i chi ddychwelyd atom unrhyw ran o'r grant nad yw wedi'i wario.

Os yw'r tanwariant yn llai na 10% o'ch grant, byddwn yn addasu taliad terfynol eich grant yn unol â hynny. Os yw'r tanwariant yn fwy na 10% o'ch grant, bydd angen i chi ddychwelyd y grant nas gwariwyd atom drwy siec neu drosglwyddiad BACS (mae manylion banc ar gael ar gais).

Bydd eich taliad terfynol yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar gostau cyffredinol eich prosiect.

Gweminar a Chwestiynau Cyffredin: Cronfa Arloesi Treftadaeth

See all updates

Recordiad o'n gweminar cefnogi ymgeiswyr, ac atebion i gwestiynau a godwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar.

Crëwyd y dudalen ar 2 Awst 2022.

Gweld y weminar

Cynhaliwyd gweminar cefnogi ymgeiswyr ar gyfer y Gronfa Arloesi Treftadaeth ddydd Iau 21 Gorffennaf 2022.

Mae'r gweminar yn amlinellu:

- beth yw pwrpas y gronfa a sut mae'n wahanol i'n cronfeydd eraill
- beth allai'r rhaglen gymorth dysgu ac arloesi ehangach ei gynnig i chi
- yr hyn yr ydym yn chwilio amdano mewn ceisiadau cychwynnol
- pa gymorth arall sydd ar gael i'ch helpu i lunio cais

Gweler recordiad isod:

Remote video URL

Rydym wedi ymgorffori cynnwys o YouTube yma. Gan y gall YouTube gasglu data personol ac olrhain eich ymddygiad gwylio, byddwn ond yn llwytho'r fideo ar ôl i chi gydsynio i'w defnydd o gwcis a thechnolegau tebyg fel y disgrifir yn eu polisi preifatrwydd. Byddwn hefyd yn gosod cwci i gofio eich dewis.

Ydw, rwy'n cytuno Gwyliwch ar YouTube

Y siaradwyr yw:

- Emma Birks, Uwch Reolwr Ymgysylltu, Cronfa Treftadaeth
- Penny Yewers, Rheolwr Prosiect Datblygu Arloesi, Cronfa Treftadaeth
- Alex Roberts, Pennaeth Arloesi a Busnes Newydd, Cronfa Treftadaeth
- Anna Dinnen, Uwch Gydymaith, The Young Foundation

Cwestiynau cyffredin yn deillio o'r gweminar

Cododd y rhai oedd yn bresennol yn y gweminar gyfres o gwestiynau, yr ydym wedi'u hateb isod.

Mae'r atebion i sawl cwestiwn a godir i'w gweld drwy ddarllen y canllawiau. Darllenwch y canllawiau a'r nodiadau cymorth yn ofalus cyn gwneud cais.

Cymhwysedd

Cwestiwn: A all sefydliadau gwirfoddoli wneud cais?

Ateb: Rydym yn cynnwys gwirfoddolwyr yn ein diffiniad o'r gweithlu, felly mae croeso i sefydliadau gwirfoddol wneud cais i'r rhaglen hon. Fodd bynnag, bydd angen i chi gael cyfansoddiad (dogfen sy'n esbonio eich nodau a'ch amcanion). Meddyliwch yn ofalus am faterion y gweithlu rydych chi'n eu hwynebu, p'un a oes gennych allu i ymgysylltu â chefnogaeth ehangach y rhaglen, a pha gostau y byddwch yn eu talu.

Cwestiwn: Ydy perchnogion preifat yn gymwys? A oes unrhyw ofynion ar gyfer bod yn agored/hygyrch i'r cyhoedd?

Ateb: Gan mai cyllid gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ydyw, mae'n rhaid i berchnogion preifat treftadaeth fodloni ein canlyniad gorfodol o ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl mewn treftadaeth. Byddwn ni'n ystyried y budd cyhoeddus ehangach wrth asesu ceisiadau gan berchnogion treftadaeth preifat. Yn unol â'r canllawiau mae'n rhaid i berchnogion preifat gael gweithlu neu dîm, gan gynnwys gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr ac nad ydynt yn gymwys os ydynt yn gwneud cais o dan fraich fasnachol neu er-elw.

Cwestiwn: A yw partneriaethau/cydweithrediadau yn gymwys?

Ateb: Mae partneriaethau yn gymwys ond mae angen ymgeisydd arweiniol y bydd yr arian grant yn cael ei dalu iddo a ble mae'r aelod staff arweiniol wedi'i leoli. Dylech gael cytundeb partneriaeth mewn lle os am rannu arian yn ffurfiol – gweler canllawiau diwygiedig am fanylion pellach.

Cwestiwn: A all sefydliadau sydd wedi gwneud cais am/sydd wedi derbyn grantiau Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol neu grantiau eraill yn ddiweddar wneud cais? A allwn wneud cais os oes gennym brosiect parhaus?

Ateb: Gallwch, nid yw ceisiadau blaenorol a pharhaus o dan raglenni eraill y Loteri Genedlaethol yn effeithio ar eich cymhwysedd ar gyfer y Gronfa Arloesi Treftadaeth. Meddyliwch yn ofalus a oes gennych gapasiti ochr yn ochr â'ch prosiectau parhaus a'r gwerth y mae'n ychwanegu y gallai'r gwaith yma ei gyflwyno. Byddwn ni'n ystyried y risg cyflenwi

yn ein hasesiad.

Cwestiwn: A all prifysgolion a sefydliadau addysg uwch wneud cais?

Ateb: Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gymwys ond byddem yn disgwyl i ymgeiswyr fod â'r gallu i gymhwyso eu dysgu yn uniongyrchol o fewn cyd-destun treftadaeth.

Syniadau prosiect

Cwestiwn: A allwch chi esbonio sut y dylen ni dystiolaethu y byddwn ni'n cyrraedd canlyniadau'r rhaglen hon, pan fod y gwaith yn ei ddyddiau cynnar?

Ateb: Mae'r gronfa hon yn ymwneud â chefnogi'r amodau tymor hwy y gellir cyflawni'r canlyniadau hyn yn y dyfodol. Nid ydym yn disgwyl ymgeiswyr y Gronfa Arloesi yn y cyfnod cynnar yma, nac o fewn amserlen 6 mis y rhaglen grant hon, i dystiolaethu effaith uniongyrchol ar y canlyniadau.

Felly, bydd cyflawni'r canlyniadau hyn yn canolbwyntio mwy arnoch chi'n dechrau rhagweld a pharatoi ar gyfer effaith eich gwaith y tu hwnt i fywyd y grant yn y dyfodol.

Cwestiwn: Pa fathau o weithgareddau ydych chi'n rhagweld y bydd yr ymgeiswyr yn eu gwneud yn ystod y cyfnod Archwilio? Er enghraifft, a fyddech chi'n disgwyl i ni gyflawni unrhyw brofion?

Ateb: Canolbwynt y cyfnod Archwilio yw cwmpas a diffinio'r ardal her. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gall gweithgareddau gynnwys pethau fel cael adborth strwythuredig, cadarn gan bobl yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan yr her, a deall sut mae'n cael eu heffeithio gyda mwy o fanylder.

Gall ymestyn i ddarganfod lle arall mae'r her yn bodoli a beth yw'r gofynion o ateb posibl i'ch her a sut mae eraill yn ei brofi. Gall gynnwys mathau eraill o ymchwil a gall gynnwys profi rhagdybiaethau neu syniadau cynnar. Bydd y cyfnodau dilynol yn fwy ar gyfer i brofi a phrototeipio gweithgareddau.

Dylai'r rhaglen gymorth strwythuredig eich helpu i nodi a chynllunio'n fwy manwl a chynllunio'r gweithgareddau y bydd arnoch eu hangen i'w cyflawni. Bydd cymryd rhan yn y rhaglen hon hefyd yn golygu gwrando ar gydweithwyr treftadaeth eraill a dysgu oddi wrthyn nhw. Efallai bod yr her a nodwyd gennych yn esblygu neu'n symud o ganlyniad i'ch ymchwil a'r hyn yr ydych yn ei ddysgu.

Cwestiwn: Sut ydych chi'n diffinio 'her gweithlu'?

Ateb: Nod y rhaglen hon yw eich cefnogi i ddiffinio'r broblem neu'r her rydych chi'n ei hwynebu yn gyntaf. Mae 'her y gweithlu' yn unrhyw fater sy'n ymwneud â'r gweithlu (boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol) sy'n effeithio ar gael y sgiliau a'r galluoedd i ateb gofynion yn y dyfodol ac uchelgeisiau ar gyfer gwarchod, adfer a dathlu treftadaeth amrywiol y DU. Gallai hefyd gynnwys y ffordd mae gwaith yn cael ei drefnu a'i ddosbarthu. Gweler y nodiadau cymorth am fwy o fanylion.

Cwestiwn: Mae 'arloesi' yn edrych yn wahanol i wahanol sefydliadau – sut fyddwch chi'n sicrhau bod hyn yn cael ei ddeall o fewn eich proses o wneud penderfyniadau?

Ateb: Rydym yn sicr yn ymwybodol y gall arloesi edrych yn wahanol mewn gwahanol lefydd ac y gallai prosiectau gael pwyntiau dechrau gwahanol. Mae hyn yn rhan o'r rheswm ein bod yn bwriadu ymgorffori trafodaeth mewn cyfweliad yn

y broses, er mwyn i ni allu deall y cyd-destun rydych chi'n gweithio ynddo yn well.

Cwestiwn: A all prosiectau ddechrau ym mis Ebrill yn hytrach na Chwefror 2023?

Ateb: Na. Bwriad y rhaglen yw cefnogi carfan a fydd yn dechrau ac yn gorffen ar yr un pryd i ganiatáu cymryd rhan yn y rhaglen dysgu a chefnogi.

Nid yw hyn yn golygu na allwch fod yn archwilio eich ardal her cyn ac ar ôl hyn yn eich amser eich hun – ond mae'n ofynnol i'r amser a'r gofod pwrpasol y mae'r cyllid yn ei ddarparu fod o fis Chwefror 2023.

Cwestiwn: A allwn ni ddefnyddio'r grant yma i helpu i ddatblygu ffyrdd o weithio i gyd-fynd â chynnig/prosiect Cronfa Treftadaeth ddilynol neu barhaus?

Ateb: Gallwch, fodd bynnag, byddem yn eich annog i siarad â'ch Rheolwr Buddsoddi lleol i drafod syniadau. Dylech archwilio a yw'r gwaith y byddech yn ei wneud gyda'r Gronfa Arloesi Treftadaeth yn debygol o gyd-fynd ag unrhyw gyllid dilynol y gallech geisio amdano drwy ein rhaglenni agored.

Staffio

Cwestiwn: Sut mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn diffinio gweithlu treftadaeth?

Ateb: Dydyn ni ddim yn diffinio treftadaeth, ac mae pob math o ardaloedd treftadaeth yn gymwys ar gyfer y rhaglen hon. Gall y gweithlu gynnwys staff cyflogedig, contractwyr/gweithwyr llawrydd, lleoliadau/hyfforddeion cyflogedig a gwirfoddolwyr. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan weithlu'r dyfodol, yn ei ystyr ehangaf, y sgiliau a'r gallu sydd eu hangen i fodloni uchelgeisiau'r dyfodol ar gyfer treftadaeth y DU, a'r galwadau arnynt.

Cwestiwn: A oes modd defnyddio'r grant i gomisiynu elfennau o weithgaredd os nad oes gennych gapasiti, a/neu a all y person arweiniol fod yn ymgynghorydd neu'n gontractwr?

Ateb: Nod yr arian yw cefnogi costau eich sefydliad sy'n gwneud y gwaith archwilio cyfnod cynnar hwn. Gellir defnyddio'r arian i dalu am amser staff yn ogystal â'r costau cysylltiedig o wneud y gwaith. Gall hyn gynnwys comisiynu rhai elfennau, ond mae'n hanfodol cael aelod cyson o staff yn arwain y gwaith drwy gydol a chymryd rhan yn y rhaglen gymorth.

O dan rai amgylchiadau efallai y bydd yn briodol i weithwyr llawrydd/contractwyr arwain y prosect, er enghraifft sefydliadau a pherchnogion preifat sydd ond yn defnyddio gweithwyr llawrydd/contractwyr. Fodd bynnag, byddwn am glywed sut bydd manteision hirdymor cymryd rhan yn y rhaglen yn datblygu ar gyfer y sefydliad, yn hytrach na'r cyflenwr.

Gweler y cymorth i wneud cais, canllawiau a chanllawiau Derbyn Grant am fwy o fanylion.

Cwestiwn: Sut mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn diffinio amrywiaeth?

Ateb: Pan fyddwn yn siarad am amrywiaeth a chynhwysiant, rydym yn golygu mynediad cyfartal a theg i bawb, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, anabledd, hil, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, ffydd, dosbarth neu incwm. Gweler ein canllawiau cynhwysiant am fwy o wybodaeth.

Costau cymwys

Cwestiwn: Sut ddylen ni gyfrifo cyfraniad sydd ddim yn arian parod uwch reolwr?

Ateb: Mae cyfrifiad syml o nifer yr oriau y byddant yn eu darparu wedi'u lluosi â'u cyfradd fesul awr yn ddigon. Mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y byddant yn ymgysylltu â'r rhaglen yn hytrach na'r gwerth ariannol, felly sicrhewch bod hyn yn glir yn eich dogfennau cais/ategol.

Cwestiwn: A oes modd defnyddio'r arian yma fel arian cyfatebol ar gyfer grantiau eraill? Oes modd ei ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer grantiau Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol?

Ateb: Does dim modd defnyddio'r arian fel arian cyfatebol ar gyfer grantiau Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ond fe allai gael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer grantiau eraill. Fodd bynnag, byddwn yn ariannu'r fenter yn ei rhinwedd ei hun a bydd angen i chi gofrestru i delerau grant pwrpasol sy'n adlewyrchu hyn.

Cwestiwn: A allwn ni ddefnyddio arian cyfatebol ynghyd â'r Gronfa Arloesi Treftadaeth fel rhan o'r broses Archwilio?

Ateb: Mae croeso i chi gyfrannu at y broses hon drwy arian parod neu gyfraniadau sydd ddim yn arian, a gallwch gynnwys hyn yn eich ffurflen gais os gallwch chi ymrwymo iddo ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid oes isafswm gofynion ariannu arian parod ar gyfer y Gronfa Arloesi Treftadaeth.

Cymorth ychwanegol

Cwestiwn: Os ydyn ni'n aflwyddiannus, oes cyfle i ddysgu unrhyw beth arall o'r rhaglen?

Ateb: Rydym yn bwriadu modelu dull 'dysgu agored', sy'n golygu y byddwn yn rhannu ein mewnwelediadau o'r peilot, ac rydym yn edrych i alluogi prosiectau i wneud yr un peth. Byddwn ni hefyd yn defnyddio'r dysgu o'r peilot yma i lywio cynigion cyllid yn y dyfodol i'r sector er mwyn sicrhau budd mor eang â phosib. Nid ydym yn darparu unrhyw raglen ffurfiol ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus.

Cwestiwn: Beth ddylen ni ei wneud os na allwn ni fynd ar y gweithdai/os nad oes digon o lefydd?

Ateb: Cofrestrwch ar gyfer y rhestr aros. Byddwn yn edrych ar adborth o'r gweithdy cyntaf ac yn ymateb gydag adnoddau ychwanegol yn ôl y gofyn. Gallwch hefyd gysylltu â'ch tîm ardal/ymgysylltu gwlad lleol am gymorth ychwanegol wrth ddatblygu eich cais.

Cwestiwn: Ydy mynychu gweithdy yn angenrheidiol er mwyn i gais fynd yn ei flaen?

Ateb: Na, nid yw presenoldeb mewn gweithdy yn orfodol. Maen nhw'n gymorth ychwanegol i'r rhai a hoffai weithdai eu syniadau gydag eraill.

Trosolwg o'r cynllun

Cwestiwn: A yw'n debygol y bydd Cyfnod 1 arall?

Ateb: Rhaglen beilot yw hon, felly byddwn ni'n adolygu'r galw a'r dysgu sy'n dod o'r cam cyntaf er mwyn llywio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Ar hyn o bryd, does dim Cam 1 arall wedi'i drefnu.

Cwestiwn: Pa mor fawr fydd grantiau ar gyfer Cam 2 a 3?

Ateb: Ni allwn gadarnhau'r gyllideb lawn eto ar gyfer yr arian cam diweddarach. Mae hyn yn dal yn amodol ar ein proses gynllunio busnes flynyddol a fydd yn cael ei lywio gan y dysgu sy'n deillio o'r peilot cam cyntaf yma. Mewn egwyddor rydym yn disgwyl gwneud llai o grantiau ond o swm mwy yng nghamau 2 a 3.

Wrth ddylunio'r fenter, buom yn gweithio i gyllideb arwyddol o £5miliwn. Rydym yn disgwyl gwario tua £800,000 ar y grantiau camau cyntaf hyn. Bydd gweddill yr arian yn mynd tuag at gam nesaf y rhaglen yn 2022-2023 a'r grantiau y gall sefydliadau wneud cais amdanynt wedi i'r rhaglen 'Archwilio' gwblhau'n llwyddiannus.

Cwestiwn: Sawl prosiect ydych chi'n gobeithio ei ariannu ym mhob un o'r tri cham?

Ateb: Mae gennym gyllideb o tua £800,000 ar gyfer y grantiau Archwilio ac rydym yn disgwyl dyfarnu 30-35 o grantiau. Yn unol â'r ymateb uchod ar y gyllideb ar gyfer cyllid cam nesaf, bydd hyn yn cael ei gwblhau mewn ymateb i'r dysgu sy'n dod allan o'r cam cyntaf hwn.

Cwestiwn: Sut benderfynwyd ar amserlen y rhaglen hon? Mae ein capasiti dros yr haf yn gyfyngedig ac mae'r ffenestr ymgeisio yn rhy fyr.

Ateb: Rydym wedi ceisio cadw'r broses ymgeisio fel cyffyrddiad ysgafn ag sy'n bosib ar gyfer arian cyhoeddus, a sicrhau bod y dyddiad cau hyd at ddiwedd mis Medi i ddarparu ar gyfer gwahanol gyfnodau gwyliau haf y DU.

Mae'r llinell amser yn sicrhau bod modd gwneud dyfarniad a gall y garfan ddechrau yn ystod y flwyddyn ariannol hon.